COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL A MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mai 8fed, 2019 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), Angharad Correia-Martins, G. Ian Evans, Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts (Is-gadeirydd), William B. Williams, Cynghorwyr John B. Hughes a Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

YMDDIHEURIADAU

Dylan Llwyd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL

1. **ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Cyng. O. Hefin Roberts (Ward Aber-soch) yn Gadeirydd a'r Cyng. G. Ian Evans (Ward Llanengan) yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2019 – 2020.

Diolchodd Cyng. Alun Jones i bawb am eu cefnogaeth yn ystod ei ddwy flynedd yn y gadair a dymunodd yn dda i'r swyddogion newydd. Yn yr un modd, diolchodd Cyng. O. Hefin Roberts i'r Cyn-gadeirydd am ei waith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn arbennig am fodloni cymryd y gadair am flwyddyn ychwanegol yn dilyn ymddiswyddiad Cyng. Gwilym Hughes, yr Is-gadeirydd, cyn Cyfarfod Blynyddol y llynedd.

2. **ENWEBIADAU IS-BWYLLGORAU**

Enwebwyd yr aelodau a ganlyn ar yr Is-bwyllgorau:

- **Ariannol –** Cadeirydd, Is-gadeirydd, Edward O. Griffith, John Gwilym Jones, Robert M. Jones a'r Clerc
- **Caeau Chwarae –** Cadeirydd, Is-gadeirydd, Wyn Griffith, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts a'r Clerc
- **Cynllunio –** Cadeirydd, Is-gadeirydd, aelod o bob Ward (tri) a'r Clerc
- **Llwybrau –** Cadeirydd, Is-gadeirydd, Angharad Correia-Martins, Wyn Griffith, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones a'r Clerc
- **Mynwent –** Cadeirydd, Is-gadeirydd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams a'r Clerc.

3. **ADOLYGU A MABWYSIADU'R RHEOLAU SEFYDLOG**

Derbyniwyd y Rheolau Sefydlog.

4. **ADOLYGU A MABWYSIADU'R RHEOLAU ARIANNOL**

Derbyniwyd y Rheolau Ariannol.

5. **ADOLYGU ASESIADAU RISG, ARCHWILIAD MEWNOL Y CYNGOR A'R GOFRESTR ASEDAU**

Cadarnhawyd fod y drefn yn unol â Rheolau Ariannol y Cyngor a hysbyswyd y cwmni yswiriant o'r ychwanegiadau yn dilyn awgrym yr Archwilydd Mewnol ar ddiwedd archwiliad 2017 – 2018. Ychwanegwyd yr offer newydd a'r ffens at y gofrestr asedau, ynghyd â hysbysu'r cwmni yswiriant – nid oedd cost ychwanegol. Dosbarthwyd Ffurflen Lwfans Cynghorwyr i bawb a oedd yn bresennol.

6. **POLISÏAU**

Adolygwyd polisïau'r Cyngor.

7. **DYDDIADAU CYFARFODYDD 2019 – 2020**

Derbyniwyd a dosbarthwyd copi o'r dyddiadau i'r aelodau.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ebrill 10fed, 2019 yn gywir ar ôl cywiro presenoldeb Cyng. G. Ian Evans. Holwyd pam y talwyd treth ar y toiledau – oni ddylai fod am ddim i Gynghorau; holir erbyn cyfarfod mis Mehefin.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd yr un cais – y tro cyntaf i'r Cyngor beidio â thrafod un ers penodi'r Clerc ddeunaw mlynedd yn ôl.

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

b) **13. Gohebiaeth: ch) Menter Môn – Wi-fi Cymunedol Cyhoeddus**
Ni dderbyniwyd ymateb ar ôl hysbysu'r swyddogion na fwriada'r Cyngor barhau â'r cynllun.

c) **13. Gohebiaeth: dd) Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Odyn Galch, Lôn Pen Cei, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ymateb ar ôl gofyn i'r Adran dorri'r tyfiant.

6. **MYNWENT**

a) **Prisiau Newydd**

Derbyniwyd rhestr brisiau newydd oddi wrth G.D. Roberts, Ymgymerwr, i'w hanfon at ymgymerwyr lleol – cynnydd o £10.00 i ailagor bedd a llain tir ar gyfer claddu llwch. Gwirio â chynghorau eraill o ran hyn cyn eu derbyn.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd**

i) ***Cae Aber-soch***
Ni dderbyniwyd prisiau oddi wrth y tri chontractwr am goliau newydd ond, dywedodd un ei bod yn rhatach prynu rhai ar y we - amheuir hynny ond, ymchwilir erbyn cyfarfod mis Mehefin.

ii) ***Trac Beicio Mynytho***
Bwriada Caloo ddechrau'r gwaith tir ddydd Llun nesaf (Mai 13eg) – tuag wythnos o waith – a gosod y Sudbase yr wythnos wedyn.

b) **Archwilio Coed yr Allt a Chae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd ymateb Paolo Bavaresco i gais Sefydliad y Merched Aber-soch gael plannu coed – awgrymodd bedwen arian sydd angen golau ac awgryma ei phlannu yn y mannau a dorrwyd. Hefyd, gellid ei phlannu o gwmpas y cae chwarae tua 2.5 metr ar wahân. Derwen heb goesyn yw'r dewis arall – buasai'n berffaith ar gyfer bywyd gwyllt.
Disgwylir amcanbris i dorri'r coed oddi wrth Adam Wildewood.

c) **Paentio'r Offer**
Nis ymatebodd y contractwr i'r llythyr a anfonwyd ato parthed paentio arhosfan bws Parciau Mynytho nac anfon ei anfoneb am baentio'r offer sglefrfyrddio yng Nghae Chwarae Aber-soch. Dywedodd y Cyn-gadeirydd y câi air ag o.

8. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad Ariannol Mewnol ac Allanol 2018 – 2019**
Derbyniwyd ffurflenni oddi wrth BDO – Gorffennaf yr ail yw dyddiad yr archwiliad. Gobeithir cyflwyno'r ddogfennaeth i'w archwilio'n fewnol cyn diwedd y mis – treuliwyd deng awr yn gwirio'r cyfrifon.

b) **Adroddiad Diwedd y Flwyddyn Ariannol, Asesiad Risg a Llif Arian**

i) ***Adroddiad Ariannol a Llif Arian***
Dosbarthwyd taflen Llif Arian i bawb ac aethpwyd trwyddi. Adroddwyd a derbyniwyd bod:

- £29110.49 yn y Cyfrif Cyfredol
- £11292.78 yn y Cyfrif Cadw

- £3310.00 yng Nghyfrif y Fynwent.

Sylweddolodd y Clerc y talodd 6c yn ormod i Gyngor Gwynedd am wagio'r biniau baw cŵn – amryfusedd wrth adio tair anfoneb... – ac na dderbyniwyd ad-daliad Torri'r Foel a delid bob mis Gorffennaf gan Gyfoeth Naturiol Cymru hyd ddwy flynedd yn ôl ond, bu newid swyddogion ers hynny; anfonwyd anfoneb y contractwr.

ii) ***Asesiad Risg ac Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol***
Cynhaliwyd yr arbrawf a'r asesiad risg yng nghyfarfod mis Ebrill y Cyngor – fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

c) **Meinciau Sarn Bach a Bwlchtocyn**

- Ni archebwyd meinciau hyd yma oherwydd na dderbyniwyd ymateb oddi wrth y wraig a ddymunai osod un er cof am ei mam.
- Adroddodd y Clerc y gwelodd erthygl yn y *Daily Post* am osod mainc solar ar y cei yng Nghonwy yn ddiweddar. Cysylltodd â'r Cyngor Bwrdeistrefol ac er na wyddai'r ferch y siaradodd â hi amdani, deallwyd y gosodwyd un yn Llanfair Talhaearn a Llangernyw hefyd; awgrymwyd edrych i mewn i'r mater.

ch) **Cyflenwad Trydan y Toiledau**
Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Gymro Cymraeg o gwmni broceriaid The Energy Company yn Rhuthun yn cynnig prisiau ar gyfer cyflenwad trydan y toiledau. Fe'i hysbyswyd fod y Cyngor mewn cytundeb tair blynedd ac y cysylltir ag o cyn diwedd honno.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
O ran yr ymholiad a wnaethpwyd am y siale/cwt yn Fronheulog, Lôn Garmon, atebwyd nad yw'n angenrheidiol bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer gosod strwythur/adeilad o'r fath o fewn cwrtil tŷ annedd; mae'n llwyr ddibynnol ar ei faint a/neu ddefnydd. Ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiadau eraill.

b) **Cytiau Glan y Môr**
Nis anfonwyd y llythyr i fynegi pryder parthed yr uchod - ychwanegir sylwadau ato. Ymchwiliodd y Clerc i faint o dai'r ardal a osodir ar AirBnB a chafodd syndod mawr o weld cwt glan môr Maes Carafanau Bryncethin yn cael ei osod am £70.00 y noson... Adroddwyd hefyd fod perchennog un o dai haf canol y pentref yn byw yn ei gwt yntau trwy'r haf tra gosoda ei dŷ; cysylltir â Gorfodaeth.

c) **Arolwg Cynghorau Cymuned a Thref Cymdeithas Prif Swyddogion Cynllunio Cymru**
Daw'r arolwg i ben ar Fai 10fed.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Bin Baw Ci ym Marchros**
Ail-anfonwyd y cais yn gofyn i'r Adain Fwrdeistrefol osod bin newydd/ ychwanegol yn y maes parcio, gan mai dim ond un o rai'r Cyngor hwn sy'n weddill.

b) **Cais am Olau Stryd yn Stad Sant Tudwal, Mynytho**

Ni dderbyniwyd dyddiad oddi wrth Jones Ltd. sy'n gwneud y gwaith i ScottishPower. [Adroddwyd bod y ddwy lamp stryd yn Llangian yn fflachio – hysbysir yr Adran.]

c) **Parcio yn Lôn Pen Cei, Aber-soch**
Derbyniwyd copi, er gwybodaeth, o e-bost a dderbyniodd yr Aelod Lleol yn atodi llun o fan gampio wedi parcio dros nos ar yr uchod. Gofynnir hefyd, pryd mae'r Cyngor yn mynd i atal y parcio achlysurol a ddigwydd dros nos yn ddyddiol yn ystod y tymor gwyliau. Mynegwyd y digwydd yr un peth ym Mhorth Neigwl.

ch) **Peiriannau Talu Parcio'r Fach**
Derbyniwyd eglurhad mai peiriannau solar ydynt a gall hynny wneud iddynt edrych fel nad ydynt yn gweithio.

d) **Rhaglen Waith mis Mai**
Draenio Allt Sychnant, Llangian, am oddeutu saith niwrnod.

10. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) **Torri'r Llwybrau**
Ni ymatebodd Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i'r cynnig o ymweld ag o ym Mhwllheli i drafod ail-gategoreiddio'r llwybrau.
Ni lwyddwyd hysbysebu'r tendr yn *Llanw Llŷn* – gwneir mis nesaf, gan fod amser cyn dechrau eu torri ym mis Mehefin.

b) **Llwybr Shanty, Pen Bennar**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth Aelod o'r Cyngor yn mynegi pryder am gyflwr y llwybr o ganlyniad i'r gwaith datblygu ar yr uchod – fe'i harchwilir.

c) **Llwybr y Morwyr (Rhif 42 a 51)**
Hysbyswyd yr Adran Hawliau Tramwy fod nant rhwng lôn Pant y Wennol a Llwybr 51 wedi gorlifo rhyw ddwy neu dair llath yn uwch na'r ffoes ac, o ganlyniad, mae'n rhedeg ar y llwybr yn hytrach na'r ffoes. Bwriadai DWO ymweld yn fuan wedyn ond, ni dderbyniwyd ymateb pellach.

ch) **Torri Coed ar Lwybr Ceffyl ger Penfôr, Bwlchtocyn**
Copi, er gwybodaeth, o gŵyn parthed yr uchod. Deallwyd, erbyn hyn, mai Gwynedd sy'n gyfrifol wrth geisio datrys y gwlybaniaeth ar y llwybr. Penderfynwyd ysgrifennu i ofyn am gynllun o'r gwaith er mwyn i'r Cyngor hwn roi mewnbwn a'i gadarnhau.

11. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Papur Pleidleisio ar gyfer Bwrdd Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr***
Datganiadau'r ymgeiswyr – penderfynwyd pleidleisio dros Michael Parry, Pwllheli.

ii) ***Canllawiau ar Daliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref***
Copi o'r uchod a luniwyd ar y cyd â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i reoli'r broses o dalu lwfansau i Gynghorwyr. Dosbarthwyd copi o'r ffurflen derbyn/gwrthod i bawb eisoes.

iii) ***Llythyr Croeso – Aelodaeth ULlC***

Copi o'r uchod, ynghyd â ffurflen enwebu cynrychiolwyr y Cyngor ar y Pwyllgor Ardal – y Cadeirydd a'r Clerc.

iv) ***Digwyddiad Rhwydweithio/Cynhadledd ar y Cyd rhwng ULlC a Chymorth Cynllunio Cymru – Llunio Eich Cymuned – Rôl Cynlluniau Cymunedol a Chynlluniau Bro***
Gwybodaeth am yr uchod a gynhelir yng Nghanolfan Glastir, Llanrwst, rhwng deg y bore a phedwar y pnawn ar Fehefin 11eg - neb am fynd, gan ei fod fwy at gynghorau trefol.

v) ***Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2019***
Gwahoddir uchafswm o ddau gynnig gan bob Cyngor i'w cyflwyno cyn Mehefin 20fed.

b) **Arloesi Gwynedd Wledig – Newyddlen mis Ebrill**
Nodir yr ailddechreuwyd prosiect o osod peiriant fendio'n gwerthu cynnyrch lleol ac y dewiswyd gwersyllfa Nant-y-Big eleni am gyfnod o chwe mis (Ebrill – Medi). Gwerthir deg cynnyrch lleol ynddo. Nodir hefyd y gosodir system codi ffi 'di-arian' (*contactless)* yn nhoiledau cymunedol Llanberis – ymholir amdano.

c) **Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Mickey's Boatyard, Marchros**
Gohebiaeth, er gwybodaeth, a dderbyniodd oddi wrth yr Aelodau Lleol am eu pryderon am yr uchod. Trafodwyd y mater a mynegwyd cryn bryder am y ffordd mae'r perchnogion yn 'defnyddio'r drwydded dros dro i gynnal gweithgareddau yno a'r diffyg toiled. Penderfynwyd ysgrifennu at yr Adran Gynllunio unwaith yn rhagor - dyfynnwyd cofnodion cyfarfod blynyddol 2018...

ch) **Nimbus Lightning Protection Ltd. – Profi System Corn Tanrallt**
Llythyr yn cynnig cytundeb profi'r uchod am flwyddyn, tair neu pum mlynedd am bris £114.00; penderfynwyd derbyn yr un tair blynedd.

d) **Wyn Williams – Menter Iaith**
Yn dilyn cyfarfod ag Ifan Llewelyn, Swyddog Hunaniaith, i geisio sefydlu Menter Iaith yn Aber-soch, trefnodd Wyn Williams, gyfarfod cychwynnol yn y Neuadd, nos Fercher, Mehefin 5ed am saith o'r gloch. Bodlonodd Cyng. Angharad Correia-Martins a'r Clerc ei fynychu.

13. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C16/0186/39/TC	Defnyddio tir ar gyfer lleoli carafán fel llety preswyl **-** Ty'n Ffynnon, Mynytho - **Caniatawyd Tystysgrif Gyfreithlon yn unig**
C18/1034/39/LL	Trosi adeilad allanol yn llety gwyliau - Well Farm (ger Stad Cornwall), Mynytho **- Caniatawyd ag amodau**
C18/1189/39/LL	Addasiadau ac estyniadau i'r eiddo i gynnwys codi a newid ffurf y to i wella gofod ystafelloedd llawr cyntaf, gosod balconi blaen, estyniadau cefn a chodi modurdy dwbl **–** Carrog, Aber-soch – **Gwrthodwyd**
C19/0185/39/LL	Diwygio Amod 3 ar Ganiatâd Cynllunio C16/1579/39/LL er adeiladu'r datblygiad yn unol â chynllun diwygiedig **-** Glenville, Lôn Pont Morgan, Aber-soch - **Caniatawyd ag amodau**
C19/0232/39/LL	Ffenestr gromen gefn **–** Garreg Wen, Llanengan – **Caniatawyd ag amodau**

14. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Mai (Rh/S 002232) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Bacstal Pac – £112.57 (D/U – Gwasanaeth Paratoi Cyflogau Chwarterol)
b) E-on – £9.15 (D/U – Trydan y Toiledau)
c) Casglwr Trethi – £5.61 (Rh/S 002233 – Talu Wrth Ennill)
ch) Cronfa'r Cadeirydd – £500.00 (Trosglwyddiad)

Derbyniadau
a) Toiledau – £212.20 (Tâl Mynediad – £27.40, £72.50, £79.00, £7.20, £26.10)
b) Cyngor Gwynedd – £25,000 (Taliad Cyntaf Praesept 2019 – 2020)

15. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Mehefin 12fed, 2019 am saith o'r gloch